Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

# Cylchlythyr Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS)

*AWST 2026*

## Yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig

Yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA) Rhif ffôn 0141 726 2397 Mae'r llinellau ar agor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau cyhoeddus).

Bydd cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn cau ar **16 Ionawr 2027** ac erbyn hynny, bydd yr IBCA wedi cymryd drosodd yr holl fuddiolwyr yn llawn.

Os ydych chi'n pryderu am lythyr gwahoddiad i hawlio gan yr IBCA, gallwch ffonio prif linell IBCA **0141 726 2397** i wirio bod y gwahoddiad yn ddilys.

## Diweddariadau am WIBSS

O 30 Hydref 2026, bydd WIBSS ar gau i geisiadau newydd am Daliadau Iawndal Gwaed Heintiedig Dros Dro i Ystadau. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i brosesu pob cais a dderbynnir cyn 30 Hydref. Nid yw hyn yn effeithio ar y rhai sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig. Gallwch gofrestru eich bwriad i hawlio gyda'r Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig drwy ymweld â:
https://ibca.org.uk/register/register-your-intent-to-claim

O 22 Hydref 2025, pan fydd person yr effeithir arno sydd wedi'i gofrestru gyda Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) yn marw ar ôl 31 Mawrth 2025 ac nad oedd wedi derbyn iawndal gan yr IBCA cyn marw, bydd ei briod neu bartner sy'n goroesi yn gymwys i gyflwyno cais. Rhaid derbyn ceisiadau o'r fath erbyn 31 Hydref 2026.

Gellir dyfarnu taliad angladd dewisol o hyd at £4,500 hefyd tuag at gostau angladd yr ymadawedig. Mewn achos lle nad oes priod na phartner sy'n goroesi, gellir talu'r taliad am yr angladd i ystad y person ymadawedig.

## CYSYLLTU Â NI

Cysylltwch â WIBSS ar **02921 500900** neu anfonwch e-bost at **wibss@wales.nhs.uk**

Os na chaiff eich galwad ei hateb, gadewch neges gyda'ch enw a'ch rhif cyswllt, ac fe wnawn ni eich ffonio yn ôl yn brydlon.

Ar gyfer yr Adran Seicoleg a Lles, anfonwch e-bost at: **wibss.wellbeingservice@wales.nhs.uk** .

**Cyswllt Diweddar**

Rydym yn cymryd eich gwybodaeth bersonol o ddifrif.
Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch tarddiad llythyr yn gofyn am eich data personol, sy'n ymddangos fel pe bai'n llythyr gan WIBSS, cysylltwch â ni ar ein llinell uniongyrchol, **02921 500900**.



Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

## Cymorth Hawliau Lles

Hoffem eich atgoffa bod ein Tîm Hawliau Lles yn cynnig **gwasanaeth cyfrinachol a phwrpasol** i'ch cefnogi chi a'ch teulu. Gall y tîm helpu gyda nifer o faterion, sy'n cynnwys materion yn ymwneud â budd-daliadau, cynyddu incwm, rheoli arian, eiriolaeth a chymorth cyffredinol.

Ein nod yw gwneud cael mynediad at gymorth mor hawdd â phosibl. Mae apwyntiadau ar gael drwy **ymweliadau cartref, dros y ffôn, drwy e-bost** a thrwy **apwyntiadau ar-lein (Teams).** Gallwch gysylltu â'r tîm gan ddefnyddio'r rhif a ddarperir uchod, a byddwn yn hapus i helpu.

**Nodyn Atgoffa Pwysig i Hawlwyr IBCA**

Os ydych chi wedi derbyn eich hawliad IBCA, cofiwch ddweud wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) am unrhyw daliadau iawndal a gewch, lle bo'n berthnasol.

Er bod y taliadau hyn yn cael eu hanwybyddu wrth asesu budd-daliadau, mae'n dal yn ofynnol i chi adrodd amdanynt i'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch, cysylltwch â'r tîm, a fydd yn hapus i'ch cynorthwyo.

## Gwasanaeth Hawliau Lles – Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

### Gwasanaeth Hawliau Lles i Gau ym mis Ionawr 2027

Fel y gwyddoch efallai, bydd y Gwasanaeth Hawliau Lles yn cau ym mis Ionawr 2027, pan fydd WIBSS yn cau. Er bod hyn yn newyddion pryderus, wrth reswm, i bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaeth ar hyn o bryd, mae'n dal i fod amser i baratoi a sicrhau bod cefnogaeth barhaus ar waith.

Ein blaenoriaeth dros y misoedd nesaf yw helpu defnyddwyr gwasanaeth i gael mynediad at ffynonellau eraill o gyngor a chymorth ar hawliau lles yn eu cymunedau lleol. Rydym am sicrhau nad oes neb yn cael ei adael heb arweiniad pan fyddant ei angen fwyaf.

### Sut Gallwn Ni Helpu

Bydd staff presennol y Gwasanaeth Hawliau Lles yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i:

- Nodi gwasanaethau cynghori amgen ar Hawliau Lles a Budd-daliadau yn eu hardal.
- Ymchwilio i'r gefnogaeth sydd ar gael drwy awdurdodau lleol, elusennau a sefydliadau cymunedol.
- Cynorthwyo gydag atgyfeiriadau lle bo'n briodol.

Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

- Darparu gwybodaeth am ffynonellau dibynadwy o gyngor ar fudd-daliadau lles.
- Helpu unigolion i ddeall sut i gael mynediad at gymorth yn y dyfodol cyn i'r gwasanaeth gau.

### Yr Hyn y Gall Buddiolwyr Ei Wneud

Rydym yn annog pob buddiolwr presennol i ddechrau ymgysylltu â ni nawr fel y gallwn helpu i gynllunio'r trosglwyddiad i wasanaeth cynghori arall ymhell cyn mis Ionawr 2027.

Drwy gydweithio'n gynnar, gallwn:

- Nodi'r opsiynau cymorth mwyaf addas.
- Lleihau'r risg y bydd bylchau mewn cyngor a chymorth.
- Sicrhau bod pobl yn teimlo'n hyderus ynghylch ble i droi am gymorth yn y dyfodol.

### Cael yr wybodaeth ddiweddaraf

Bydd rhagor o wybodaeth am y broses gau a threfniadau cymorth amgen yn cael ei rhannu drwy WIBSS a sianeli cyfathrebu eraill wrth i gynlluniau ddatblygu.

Os ydych chi'n defnyddio'r Gwasanaeth Hawliau Lles ar hyn o bryd ac mae gennych chi bryderon ynghylch beth allai'r newid hwn ei olygu i chi, siaradwch ag aelod o'r tîm. Rydym wedi ymrwymo i'ch cefnogi drwy'r cyfnod pontio hwn a'ch helpu i gysylltu â chyngor a chymorth parhaus ar hawliau lles.

**Mae'r Tîm Hawliau Lles yn parhau i fod ar gael i gefnogi buddiolwyr presennol a theulu agos y buddiolwyr. Bydd WIBSS yn parhau i helpu pobl i baratoi ar gyfer symud i wasanaethau amgen cyn mis Ionawr 2027.**

## Nodyn Atgoffa am Ddiogelu Arian

Gyda chynllun yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA) bellach ar waith, a sylw yn y cyfryngau ynghylch iawndal am Waed Heintiedig, rydym eisiau atgoffa pawb i barhau i fod yn wyliadwrus am dwyllwyr a sgamiau posibl.

Byddwch yn arbennig o ofalus ynglŷn â **rhannu gwybodaeth bersonol** neu **fenthyca arian i unrhyw un**, hyd yn oed os ydyn nhw'n ymddangos yn ddilys. Yn anffodus, mae troseddwyr yn aml yn manteisio ar sefyllfaoedd fel hyn i dargedu pobl.

**Mae Take Five** yn ymgyrch genedlaethol sy'n cynnig cyngor syml a diduedd i helpu i amddiffyn rhag twyll a sgamiau ariannol. **Gallwch ddod o hyd i awgrymiadau ac adnoddau defnyddiol yn:**

👉 www.takefive-stopfraud.org.uk

Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

Os ydych chi byth yn ansicr am rywbeth neu eisiau gwirio ddwywaith a yw rhywbeth yn edrych yn gyfreithlon, mae bob amser yn iawn oedi a gofyn am gyngor.

## Y Tîm Seicoleg a Lles

Bydd y gwasanaeth seicolegol mewnol yn WIBSS yn parhau i'r rhai sydd wedi'u heintio a/neu wedi'u heffeithio yng Nghymru. Bydd rhagor o fanylion ar gael wrth i ni symud tuag at y dyddiad trosglwyddo.

Mae Gwasanaeth Seicoleg a Lles WIBSS yn parhau i gefnogi aelodau WIBSS a'u teuluoedd estynedig. Rydym yn parhau i fod ar agor i **atgyfeiriadau newydd** ar gyfer buddiolwyr a theulu agos y buddiolwyr.

Os ydych chi neu aelod o'r teulu'n profi unrhyw anawsterau emosiynol neu les gyda'r broses o hawlio gan yr IBCA, cofiwch fod y Tîm Seicoleg a Lles yma i helpu. Mae cefnogaeth ar gael ar bob cam o'r broses.

**Mae tîm WIBSS yn gobeithio eich bod chi i gyd yn cael haf hyfryd**

